**Kirsty Williams AC/AM**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-931
Ein cyf/Our ref KW/07583/19

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

27 Tachwedd 2019

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Tachwedd mewn perthynas â Deiseb P-05-931 Eli haul mewn ysgolion gan Leigh O'Connor.

Nid yw iechyd a diogelwch wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru ac mae'r cyfrifoldebau mewn ysgolion yn deillio o Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 a'r Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 sy'n gysylltiedig. Mae deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr (cyrff llywodraethu/awdurdodau lleol) asesu a rheoli risgiau. Yn achos ysgolion, gorfodir hyn gan amlaf gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

Corff llywodraethu'r ysgol sydd â'r cyfrifoldeb statudol am iechyd a diogelwch disgyblion, un ai fel cyflogwr staff yr ysgol neu oherwydd ei fod yn rheoli adeiladau'r ysgol, neu'r ddau mewn sawl achos.

O dan gyfraith esgeuluster cyffredinol, mae'n ofynnol i athrawon ysgol ofalu am blant o dan 18 oed fel petaent yn rhieni iddynt. Mae'n rhwymedigaeth arnynt i drafod a gofalu am blentyn yn yr un modd ag y byddai rhiant gofalus.

Mae Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru yn cael ei arwain gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ac mae'n hybu'r cyfrifoldeb dros gynnal a hybu iechyd cymunedau ysgol. Mae hyn yn cael ei gyflawni drwy addysgu disgyblion yn ffurfiol sut i fyw bywydau iach a thrwy alluogi disgyblion a staff i gymryd rheolaeth dros agweddau ar amgylchedd yr ysgol sy'n cael effaith ar eu hiechyd. Byddai amddiffyn disgyblion rhag yr haul yn dod oddi tan y

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

pennawd hwn. Mae pob ysgol yn cymryd rhan yn y cynllun ac mae gan bob awdurdod lleol gydgysylltydd Ysgolion Iach i gefnogi ysgolion.

Mae canllawiau ar amddiffyn disgyblion rhag yr haul, gan gynnwys y rhai a ddarperir gan Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru yn awgrymu y dylai ysgolion wneud y canlynol:

- Mynd ati'n bwrpasol i ystyried risgiau bod yn yr haul wrth gynllunio gweithgareddau awyr agored yn ystod yr haf.
- Trafod gyda rhieni a chytuno ar ddull gweithredu'n lleol ynghylch darparu a thaenu eli haul â Ffactor Amddiffyn rhag yr Haul sydd o leiaf yn SPF15.
- Mynd ati i annog rhieni i ddarparu hetiau, sbectolau haul a dillad addas yn ystod yr haf ac yn arbennig pan fo gweithgareddau yn yr awyr agored ar y gweill.
- Sicrhau bod cysgod ar gael ar dir yr ysgol ar gyfer dyddiau poeth iawn.
- Osgoi cynnal gweithgareddau hirfaith yn yr awyr agored yn ystod rhan boethaf y dydd, sef 11am – 3 pm rhwng mis Mawrth a mis Hydref.

Iechyd Cyhoeddus Cymru sydd â chyfrifoldeb am y canllawiau a roddir gan y Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru ar amddiffyn disgyblion rhag yr haul, oherwydd mai dyma'r sefydliad sy'n rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ar bolisïau ynghylch amddiffyn disgyblion rhag yr haul ac sy'n rheoli'r Fframwaith Ysgolion Iach.

Yn gywir,

**Kirsty Williams AC**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education